

AGENDA RHEOLI ACHOSION

Mae'n rhaid i chi llenwi'r tabl isod ac anfon copi ohono at yr ochr arall ac i'r Tribiwnlys o leiaf 7 diwrnod cyn y gwrandawriad rhagarweiniol. Ceisiwch gytuno ar y cynnwys gyda'r ochr arall yn gyntaf os gallwch.

Efallai na fydd rhai adrannau yn berthnasol i'ch achos chi. Gadewch yr adrannau hynny yn wag. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gwybod beth i'w ysgrifennu. Bydd y Barnwr yn ei drafod gyda chi yn y gwrandawriad rhagarweiniol.

1. Eich manylion

1.1 Beth yw rhif yr achos?	
1.2 A ydych chi'n llenwi hwn ar gyfer yr hawlydd neu'r atebydd, neu a ydyw wedi'i gytuno?	
1.3 Ydych chi am hysbysu'r Barnwr yn y gwrandawriad rhagarweiniol am unrhyw fregusrwydd neu anabledd? Os felly, dywedwch beth ydyw ac eglurwch os ydych chi angen unrhyw gymorth gan y tribiwnlys.	
1.4 Ydych chi angen cyfieithydd ar y pryd yn y gwrandawriad rhagarweiniol? Pa iaith?	

2. Hawlydd ac atebydd

2.1 A yw enwau'r hawlydd a'r atebydd/atebwyr yn yr achos hwn yn gywir? Os yw'r atebydd yn gwmni, gan amlaf dylai ei enw orffen gyda "Cyf" neu "plc". Cadarnhewch yr enw cyfreithiol cywir ac, os yw'n bosibl, rhif y cwmni.	
2.2 A ddylid ychwanegu neu ddileu enw unrhyw un fel atebydd? Os felly, pam?	

3. Yr hawliad a'r ymateb

3.1 Beth yw'r cwynion yn y ffurflen hawlio? (e.e. <i>diswyddo annheg, gwahaniaethu uniongyrchol ar sail hil</i>)	
3.2 A yw'r hawlydd yn tynnu unrhyw rai o'r cwynion yn y ffurflen hawlio yn ôl? Pa rai?	
3.3 A yw'r hawlydd yn gwneud cais i ddiwygio'r hawliad?	

Os felly, mae'n rhaid iddynt ysgrifennu yma neu ar dudalen ar wahân union beth maent eisiau i'r hawliad wedi'i ddiwygio ei ddweud.	
<p>3.4 A yw'r atebydd angen i'r hawlydd egluro'r cwynion yn gliriach neu mewn mwy o fanylder?</p> <p>Os felly, mae'n rhaid iddynt ysgrifennu yma yr union gwestiynau y maent angen i'r hawlydd eu hateb.</p> <p>Dylai'r hawlydd ddarparu atebion yn ysgrifenedig cyn y gwrandawriad neu fod yn barod i ateb y cwestiynau hyn yn y gwrandawriad rhagarweiniol.</p>	
3.5 A yw'r atebydd wedi gwneud hawliad contract y cyflogwr?	
<p>3.6 A oes yna unrhyw gais i ddiwygio'r ymateb?</p> <p>Os felly, mae'n rhaid i'r atebydd ysgrifennu yma yr union beth y mae eisiau i'r ymateb wedi'i ddiwygio ei ddweud.</p>	
<p>3.7 A yw'r hawlydd angen i'r atebydd egluro'r ymateb yn gliriach neu mewn mwy o fanylder?</p> <p>Os felly, mae'n rhaid iddynt ysgrifennu yma yr union gwestiynau y maent angen i'r atebydd eu hateb.</p> <p>Dylai'r atebydd ddarparu atebion yn ysgrifenedig cyn y gwrandawriad neu fod yn barod i ateb y cwestiynau hyn yn y gwrandawriad rhagarweiniol.</p>	

4. Rhwymedi

4.1 Os oes yna hawliad diswyddo annheg sy'n llwyddiannus, a yw'r hawlydd eisiau mynd yn ôl i weithio i'r atebydd ac i'r un swydd ("adennill") neu i swydd arall gyffelyb ("ailgyflogi")?	
4.2 Os yw'r hawliad yn llwyddiannus, ac nid yw'r hawlydd yn mynd yn ôl i weithio i'r atebydd, faint o arian y mae'r hawlydd yn gofyn amdano fel iawndal?	
4.3 A yw'r hawlydd wedi anfon manylion am sut mae hynny wedi'i gyfrifo at yr atebydd (" atodlen golledion ")?	
4.4 A yw'r hawlydd wedi cychwyn gwaith newydd? Os do, pa bryd?	

<p>4.5 Os yw'r cwynion ynghylch cyflogaeth yn dod i ben, a oedd yr hawlydd yn rhan o gynllun pensiwn? Os felly, a oedd yn gynllun buddiannau a ddiffinnir (cyflog terfynol neu gyfartaledd gyrfa) neu gynllun cyfraniadau a ddiffinnir (prynu arian)?</p>	
--	--

5. Y materion

<p>5.1 Pa faterion neu gwestiynau fydd y Tribiwnlys angen penderfynu arnynt yng ngwrandawriad terfynol yr hawliad?</p> <p>Dim ond os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol y dylech lenwi'r blwch hwn. Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, bydd y Barnwr yn delio â hyn yn y gwrandawriad rhagarweiniol. Un o brif nodau rheoli achosion yw penderfynu ar y rhestr o faterion i'w penderfynu.</p>	
---	--

6. Gorchymyn adneuo

<p>6.1 Ydych chi'n gofyn i'r Barnwr wneud gorchymyn adneuo yn y gwrandawriad rhagarweiniol oherwydd mai dim ond ychydig o siawns rhesymol o fod yn llwyddiannus sydd gan ran o'r hawliad neu ymateb?</p> <p>Os ydw, pam?</p> <p>Efallai y bydd y Barnwr yn ystyried gwneud gorchymyn adneuo yn y gwrandawriad rhagarweiniol hyd yn oed os nad oes neb wedi gofyn amdano. Os felly, bydd y Barnwr yn gofyn am y gallu i dalu.</p>	
---	--

7. Preifatrwydd

<p>7.1 A oes yna gais am anhysbysrwydd neu orchymyn tebyg dan Reol Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 49? Pam?</p> <p>Os felly, efallai y bydd y Barnwr yn penderfynu arno yn y gwrandawriad rhagarweiniol. Mae'n rhaid i chi anfon unrhyw dystiolaeth i gefnogi'ch cais cyn y gwrandawriad rhagarweiniol.</p>	
--	--

8. Gwrandawiadau rhagarweiniol pellach

<p>8.1 A ddylai unrhyw faterion yn yr hawliad gael eu penderfynu mewn gwrandawriad rhagarweiniol pellach? Pa rai?</p> <p><i>(e.e. terfynau amser, anabledd, a oedd yr hawlydd yn gyflogai)</i></p>	
<p>8.2 A ddylid cynnal gwrandawriad rhagarweiniol pellach i ystyried dileu unrhyw ran o'r hawliad neu ymateb? Pa ran? Pam?</p>	
<p>8.3 Os oes angen gwrandawriad rhagarweiniol o'r fath, bydd y Barnwr yn pennu dyddiad ar ei gyfer. Bydd yn wrandawriad cyhoeddus. Hefyd, efallai bydd y Barnwr yn trefnu gwrandawriad rhagarweiniol arall i reoli'r achos os yw hynny'n angenrheidiol.</p>	

9. Dogfennau a thystiolaeth

<p>Yn y gwrandawriad rhagarweiniol bydd y Barnwr fel arfer yn gwneud gorchmynion i'r hawlydd a'r atebydd anfon at ei gilydd restr o'r holl ddogfennau perthnasol a thystiolaeth eraill sydd ganddynt, a chopïau ohonynt. Gelwir hyn yn “datgeliad”. Yna bydd y Barnwr yn gwneud gorchmyn i ffeil o ddogfennau perthnasol gael ei pharatoi ar gyfer y gwrandawriad terfynol. Yn aml, gelwir y ffeil hon yn “bwndel gwrandawriad”.</p>	
<p>9.1 Ydych chi eisiau'r dogfennau gan yr ochr arall fel copïau caled (papur) neu gopïau electronig (pdf)?</p>	
<p>9.2 Ydych chi eisiau anfon dogfennau at yr ochr arall fel copïau caled (papur) neu gopïau electronig (pdf)?</p>	
<p>9.3 Erbyn pa ddyddiad dylai'r atebydd anfon eu rhestr o ddogfennau a chopïau o ddogfennau?</p>	
<p>9.4 Erbyn pa ddyddiad dylai'r hawlydd anfon eu rhestr o ddogfennau a chopïau o ddogfennau?</p>	
<p>9.5 Pwy fydd yn gyfrifol am baratoi'r ffeil o ddogfennau/bwndel ar gyfer y gwrandawriad terfynol?</p>	
<p>9.6 Erbyn pa ddyddiad dylid anfon y ffeil/bwndel at yr ochr arall?</p>	
<p>9.7 A ddylai fod yn gopi caled neu'n gopi pdf?</p>	
<p>9.8 A fydd angen tystiolaeth feddygol arbenigol yn y gwrandawriad terfynol? Pam?</p>	
<p>9.9 A oes angen arbenigwr meddygol ar y cyd?</p>	

9.10 Os oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol, pa orchmynion a ddylid eu gwneud i gyfarwyddo'r arbenigwr ar y cyd?	
---	--

10. Tystion

Fel arfer bydd y Barnwr yn y gwrandawriad rhagarweiniol yn gwneud gorchymyn bod rhaid i bob unigolyn sy'n mynd i roi tystiolaeth yn y gwrandawriad terfynol baratoi datganiad tyst ysgrifenedig a'i anfon at yr ochr arall cyn y gwrandawriad terfynol.	
10.1 Enwch bob unigolyn rydych chi'n bwriadu eu galw fel tyst ar gyfer eich ochr chi yn y gwrandawriad terfynol a dywedwch yn gryno am beth fydd pob unigolyn yn rhoi tystiolaeth. Bydd angen i'r hawlydd roi tystiolaeth ac efallai mai nhw fydd yr unig dyst ar eu hochr nhw.	
10.2 A ddylai'r hawlydd a'r atebydd gyfnewid eu datganiadau tyst ar yr un diwrnod neu a ddylai un ochr wneud hynny gyntaf?	
10.3 Ar ba ddyddiadau ddylai datganiadau tystion gael eu cyfnewid neu eu hanfon?	
10.4 A ddylid eu hanfon fel copïau caled neu gopïau pdf?	

11. Iaith Gymraeg

11.1 A oes unrhyw dyst yn dymuno rhoi tystiolaeth yn Gymraeg?	
11.2 A oes unrhyw barti yn dymuno dibynnu ar ddogfen sydd wedi ei hysgrifennu yn Gymraeg? Faint?	

12. Y gwrandawriad terfynol

12.1 A allech chi fynychu gwrandawriad drwy fideo petai angen? Byddai angen i chi fod yn rhywle lle na fyddai neb yn tarfu arnoch rhwng 9.30am a 4.30pm i gymryd rhan yn y gwrandawriad a bod â chysylltiad rhyngrwyd da a chyfrifiadur neu liniadur.	
12.2 A fyddai'n well gennych chi fynychu gwrandawriad wyneb yn wyneb neu wrandawriad drwy fideo? Pam?	
12.3 Pa mor hir ydych chi'n credu bydd y gwrandawriad terfynol yn para?	

12.4 A oes angen gwrandawriad ar wahân i benderfynu ynghylch iawndal neu rwymedi arall? Pam?	
12.5 A fyddai'n well gennych i'ch gwrandawriad gael ei wrando gan (a) barnwr yn unig neu (b) barnwr gyda dau aelod nad ydynt wedi cymhwyso yn y gyfraith? Nid oes rhaid i chi nodi dewis ond os ydych chi, rhowch resymau byr.	
12.6 Mae'n rhaid i chi restru yma unrhyw ddyddiad yn y 12 mis nesaf pan na fyddwch chi, eich cynrychiolydd neu unrhyw dyst rydych chi'n bwriadu ei alw ar gael i fynychu gwrandawriad Tribiwnlys. Ar gyfer pob dyddiad mae'n rhaid i chi nodi pwy sydd ddim ar gael a rhoi rheswm. Bydd y Barnwr yn y gwrandawriad rhagarweiniol yn pennu dyddiad ar gyfer y gwrandawriad terfynol neu'r gwrandawriad nesaf.	
12.7 A fyddwch chi neu unrhyw dyst y tu allan i'r DU adeg y gwrandawriad terfynol?	
12.8 A fyddwch chi, eich cynrychiolydd neu unrhyw un o'ch tystion angen unrhyw addasiadau rhesymol yn y gwrandawriad terfynol? Dywedwch pwy fydd angen addasiadau a beth fyddant ei angen.	
12.9 A fyddwch chi neu unrhyw un o'ch tystion angen cyfieithydd ar y pryd yn y gwrandawriad terfynol? Pa iaith?	
12.10 A ddylai'r hawlydd neu'r atebydd fod yn gyfrifol am ddarparu dogfennau i'r Tribiwnlys ar gyfer eu defnyddio yn y gwrandawriad terfynol?	
12.11 A ddylent fod yn gopïau caled neu'n gopïau pdf?	

13. Paratodau eraill

13.1 A oes angen rhestr o enwau a rolau'r bobl sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau y mae'r hawliad yn ymwneud ag o (" rhestr o bobl ")? 13.2 Pwy fydd yn ei baratoi ac ar ba ddyddiad?	
---	--

13.3 A ddylid cael rhestr o ddyddiadau a phrif ddigwyddiadau (“ cronoleg ”)?	
13.4 Pwy fydd yn ei baratoi ac ar ba ddyddiad?	
13.5 A oes yna unrhyw ofynion arbennig ar gyfer unrhyw wrandawriad? Beth ydyn nhw?	

14. Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod

Mae'r adran hon yn gofyn am y math o wrandawiadau lle gall y Barnwr helpu'r ddwy ochr i ddod i gytundeb ar ddatrys yr achos heb wrandawriad terfynol.	
14.1 A yw hwn yn achos a allai fod yn addas ar gyfer asesiad barnwrol ?	
14.2 A oes gan y partïon ddiddordeb mewn cael asesiad barnwrol?	
14.3 A yw hwn yn achos a allai fod yn addas ar gyfer cyfryngu barnwrol ?	
14.4 A oes gennych chi ddiddordeb mewn mynychu cyfryngu barnwrol?	
14.5 Ydych chi'n ymwybodol efallai y bydd angen i chi fynychu Apwyntiad Datrys Anghydfod ?	
AT DDEFNYDD BARNWROL YN UNIG	Os yw'n berthnasol, bydd y Barnwr yn ystyried p'un a yw'r meini prawf ar gyfer asesiad barnwrol/cyfryngu barnwrol/apwyntiad datrys anghydfod yn briodol ac yna'n ei godi gyda'r partïon a chofnodi'r ymateb. Os yw'n briodol, cynnal asesiad barnwrol a/neu restru ar gyfer cyfryngu barnwrol/apwyntiad datrys anghydfod yn amodol ar gysylltu â'r adran rhestru a'r Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol fel y bo'n briodol.

15. Unrhyw faterion eraill

Ysgrifennwch yma unrhyw beth arall rydych angen ei godi yn y gwrandawriad rhagarweiniol.
--

Am fwy o wybodaeth am Dribiwnlysoedd Cyflogaeth Cymru a Lloegr ewch i

<https://www.judiciary.uk/courts-and-tribunals/tribunals/employment-tribunal/employment-tribunal-england-wales/>

neu sganiwch y cod QR isod:

